CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Democratic Services (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 27AIN MAWRTH, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019, yn rhai cywir.

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

5. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. **Cwestiwn Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. George i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

   "A oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ynglŷn â'r gwasanaethau a gaiff eu darparu gan y Cyngor yn dilyn cyflwyno'r system Credyd Cynhwysol yn Rhondda Cynon Taf?"

2. **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol, D. R. Bevan:**

   "Mae amrywiaeth o ffactorau yn parhau i gael effaith ar strydoedd siopa ledled y wlad. Beth y mae modd i'r Cyngor yma ei wneud er mwyn eu gwneud nhw'n addas ar gyfer y dyfodol?

3. **Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Caple i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. R. Bevan:**

   "A wnewch chi roi diweddariad ynglŷn â chynnydd Grant Cynnal a Chadw Canol Trefi'r Cyngor os gwelwch chi'n dda?"

4. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser:**

   "A wnewch chi ddatganiad ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf?"

5. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan:**

   "A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Strategaeth Eiddo Gwag y Cyngor?"

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

6. STRATEGAETH REOLI'R TRYSORLYS GAN GYNNWYS Y STRATEGAETH FUDDSODDI, DANGOSYDDION RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2019/2020

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

27 - 44

7. ADRODDIAD STRATEGAETH CYFALAF 2019/20 GAN GYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

45 - 58

8. DATGANIAD Y CYNGOR AR Y POLISI CYFLOGAU

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

59 - 70

9. BREXIT

Cael y newyddion diweddaraf ar lafar gan y Prif Weithredwr.

10. RHYBUDD O GYNNIG

A. Ystyried y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorydd J. James a'r Cynghorydd L. Hooper:-

Mae'r Cyngor yma yn nodi ei siom bod y Bil Awtistiaeth wedi'i drechu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y bil yma ei ddatblygu ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac roedd wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol.

Er bod y Cyngor yma yn cydnabod, wrth gwrs, nad deddfwriaeth yn unig yw'r ateb i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer y rheiny ag awtistiaeth yn ein cymunedau, trwy wneud dim ond gwrthod y Bil, heb gyflwyno dewis arall credadwy, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r neges anghywir ynglŷn â'r pwnc pwysig yma.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn crynhoi pryder y Cyngor yma ynglŷn â threchu'r Bil yma, gan ofyn hefyd am sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei

deddfwriaeth ei hun ar y mater yma.

- Gofyn i Bwyllgor Craffu – Iechyd a Lles y Cyngor yma baratoi darn o waith ar y cyd â grwpiau/partneriaid perthnasol, i drafod pa bethau pellach y mae modd i'r Cyngor yma eu gwneud i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan awtistiaeth yn Rhondda Cynon Taf.

***

B. Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, G. Davies, E. Webster, S. M. Evans, A. Chapman, L. Jones, E. Stephens, H. Fychan, D. Grehan, K. Morgan, S. Rees-Owen, M. Weaver, D. Macey, J. Davies, J. Cullwick, J. Williams ac A. Cox:

Mae rhyw 7,720 o drigolion yn Rhondda Cynon Taf wedi colli'u golwg a miloedd rhagor yn profi anawsterau symudedd fel defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r bobl hyn, yn ogystal â phobl ifainc â chadeiriau gwthio, yn ei chael hi'n anodd teithio ar y strydoedd oherwydd rhwystrau ar balmentydd.

O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yma yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru (RNIB Cymru) a sefydliadau eraill i bobl anabl i ddatblygu Pecyn Cymorth Siarter y Strydoedd i waredu'r risgiau a'r anfantais sy'n gysylltiedig â rhwystrau ar y strydoedd.

Bydd y cynnig yma, ar ôl iddo gael ei dderbyn gan y Cyngor, yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu perthnasol i ddatblygu Siarter y Strydoedd Ddrafft. Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru a Grwpiau Fforwm Mynediad ac Anabledd eraill trwy gymryd tystiolaeth gan bobl sydd wedi colli eu golwg neu sydd ag anableddau eraill, sy'n profi anfantais. Wedyn caiff Siarter y Strydoedd Ddrafft ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

11. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor